PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

DYDD MERCHER 29AIN MAI 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd A.G. Morgan (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):
N. Evans D. Jones S. Williams

Cynghorwyr (Yn rhithwir):
K.V. Broom D.M. Cundy T. Daves A. Evans
G.H. John M.J.A. Lewis

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
Y Cynghorydd P.M. Hughes – Cabinet dros Drefniadaeth a'r Gweithlu

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
C. Moore - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
P.R. Thomas - Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
R. Hemingway - Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
B. Kathrens - Rheolwr Amddiffyn Rhag Llifogydd Ac Amddiffyn yr Arfordir
J. Owen - Rheolwr Trawsnewid
G. Jones - Prif Swyddog Digidol Dros Dro
J. Owen - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Morris - Swyddog Cefnogi Aelodau
S. Rees - Cyfieithydd Ar Y Pryd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
M. Runeckles - Swyddog Cefnogi Aeolodau

Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell : 10.00 yb - 11.35 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau'r Pwyllgor. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau a oedd yn delio â materion arall yn gysylltiedig â gwaith y Cyngor.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
A. Evans	Eitem 4 – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2023/24	Mae aelod o'r teulu yn gweithio yn yr adran Gwasanaethau Democrataidd

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

4. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24

[Sylwer: Bu i'r Cynghorydd Alex Evans, ar ôl datgan buddiant personol yn yr eitem hon yn gynharach, aros yn y cyfarfod a phleidleisio].

Aeth Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol, yn absenoldeb yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, ati i gyflwyno Adroddiad Monitro Cyllideb Gorfforaethol yr Awdurdod ac adroddiadau adrannol y Prif Weithredwr a'r Gwasanaethau Corfforaethol ar 29 Chwefror 2024 mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023/24.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

Atodiad A o'r adroddiad

- Gofynnwyd a oedd Swyddogion yn rhagweld unrhyw newidiadau sylweddol rhwng 29 Chwefror 2024 a diwedd y flwyddyn? Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol nad oedd y ffigurau ar gael i'w rhannu ar hyn o bryd, yn anffodus.

- Cyfeiriwyd at ddatblygu cynllun peilot asiantaeth fewnol ar gyfer y cartrefi yn Llanelli i ddarparu cronfa fwy hyblyg o staff achlysurol a nodwyd yn y prif amrywiadau - Pobl Hŷn - Cartrefi Gofal Preswyl (Darpariaeth Awdurdod Lleol. Gofynnwyd a oedd y peilot wedi dechrau ac a oedd unrhyw arwyddion cynnar o'r effaith? Eglurodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod y peilot wedi cychwyn o fewn Gofal Cymdeithasol, rhagwelwyd y byddai'r peilot yn rhedeg am 3 mis a'i fod yn cael ei reoli gan un o'r arweinwyr penodedig yn y dyfodol. Awgrymodd arwyddion cynnar ei fod yn gweithio'n dda, a bod y canlyniad hyd yma wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd Trawsnewid a'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

- Cyfeiriwyd at y prif amrywiadau - Gweinyddu Budd-daliadau Tai a oedd yn nodi bod 11 swydd wag yn yr adran oherwydd anawsterau recriwtio. Gofynnwyd am ddiweddariad. Eglurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol mai'r heriau gyda'r gwasanaeth penodol hwnnw oedd bod elfen o drosglwyddiad i Gredyd Cynhwysol a'r trosiant sylweddol. Cydnabuwyd bod 11 swydd wag yn ymddangos yn swm sylweddol, fodd bynnag, roedd y swyddi gwag wedi'u gwasgaru ar draws y tîm gweinyddu Budd-dal Tai a'r tîm Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac nid oedd rhai o'r swyddi'n llawn amser. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod effaith o ran llwyth gwaith, ond roedd yr Aelodau'n sicr bod hyn yn cael ei reoli'n briodol a bod y broses recriwtio yn parhau. Ychwanegodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol y byddai 2 brentis yn ymuno â'r tîm.

- Cyfeiriwyd at y gorwariant o £114 ar daliadau banc oherwydd cynnydd sylweddol yn nifer y taliadau cardiau fel y nodwyd o dan yr adran Refeniw.

Yn dilyn y trafodaethau diweddar gyda'r banc, gofynnwyd am ddiweddariad. Esboniodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod hyn o ganlyniad i hyrwyddo dewisiadau di-arian a defnydd cynyddol cardiau credyd a debyd, a'i fod felly yn ychwanegol at y prif gontract bancio. Eglurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ymhellach fod y telerau gyda'r banc wedi cael eu trafod a'u bod bellach yn fwy cystadleuol. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod tâl banc yn gysylltiedig â phob trafodiad a wnaed gyda cherdyn.

Codwyd bod canran y ffioedd ar drafodion wedi cael eu gostwng yn sylweddol gan ddarparwyr eraill y dylid eu cynnwys o fewn trafodaethau ynghylch contractau yn y dyfodol. Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol. Fodd bynnag, adroddwyd na fyddai'r ganran yn cael ei lleihau i wrthbwyso'r cynnydd yn y defnydd o ran yr effaith ar y gyllideb.

- Gofynnwyd pa waith a wnaed o ran darparu prydau ysgol am ddim? Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod y swm sy'n cael ei adfer o Lywodraeth Cymru wedi cynyddu o'r swm blaenorol o £2.90 i £3.20, ychydig yn uwch na 10%. Ychwanegodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd y cynnydd o broses brisio Llywodraeth Cymru yn cyfateb i'r costau ac felly roedd diffyg yn parhau.

- Cyfeiriwyd at y cynnydd mewn costau o ran cludiant ysgol. Wrth gydnabod y rhesymau, gofynnwyd a fyddai'n cael ei gynnwys yng nghyllideb y flwyddyn nesaf? Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol ei fod wedi'i gynnwys o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ym mis Mawrth 2024.

Atodiad B o'r adroddiad

- Mewn ymateb i ymholiadau a godwyd mewn perthynas â'r sylw yn gysylltiedig â'r Tîm Trawsnewid, eglurodd y Rheolwr Trawsnewid, o ran cael gwared ar swyddfeydd, fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud i wneud y defnydd gorau posibl ac effeithiol o 'weithio hybrid' a oedd wedi galluogi rhesymoli adeiladau'r Cyngor. Mewn ymateb i ymholiad pellach ynghylch llinell amser y rhaglen lleihau eiddo, cadarnhaodd y Rheolwr Trawsnewid fod mwyafrif yr adleoliadau arfaethedig wedi'u cwblhau gyda nifer fach o adleoliadau o Barc Dewi Sant ar ôl i'w cwblhau. Ychwanegodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol bod strwythurau ad-drefnu hefyd wedi digwydd i gyd-fynd â'r ffyrdd newydd o weithio. Rhoddwyd sicrwydd bod y gorwariant yn cael ei reoleiddio.

- Gofynnwyd am ddiweddariad mewn perthynas â'r sylw mewn cysylltiad ag Uned Fusnes yr Is-adran Eiddo – swydd Pennaeth Gwasanaeth wag. Eglurodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod gwaith yn dal i fynd rhagddo a phan fydd y penderfyniad terfynol wedi'i wneud, y byddai'r Pwyllgor yn cael gwybod yn unol â hynny.

- Gofynnwyd a oedd prosiect Pentre Awel yn cael ei gyflawni yn unol â'r amserlen. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, er bod y prosiect yn unol â'r amserlen ar hyn o bryd, y disgwylid y gallai amrywiad

posibl o ychydig wythnosau ddigwydd, a oedd i'w ddisgwyl ar gontract o'r maint hwn. Yn ogystal, roedd gwaith yn cael ei wneud i ailedrych ar y rhaglen i egluro safbwynt y canlyniad. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau hefyd fod y prosiect o fewn y gyllideb.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

5. STRATEGAETH MASNACHEIDDIO

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn cynnwys y Strategaeth Fasnacheiddio newydd i'w hystyried. Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Drefniadaeth a'r Gweithlu yr adroddiad ynghyd â chyflwyniad a ddarparwyd gan y Rheolwr Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir a oedd, fel rhan o Fenter Arweinydd y Dyfodol, yn gyfrifol am y prosiect i ddatblygu'r strategaeth gyda'r Rheolwr Trawsnewid. Rhannwyd y cyflwyniad cynhwysfawr gyda'r Aelodau ar y diwrnod a'i nod oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor pam fod angen Strategaeth Fasnachol a'r hyn y byddai'r Strategaeth yn ceisio ei gyflawni.

Roedd y Strategaeth yn ei hesboniad o'r pwrpas, yn cydnabod bod y Cyngor yn wynebu pwysau o alw cynyddol am wasanaethau, gyda chyfyngiadau pellach ar adnoddau a dibyniaeth gynyddol ar gynhyrchu refeniw. Roedd y Cyngor wedi datgan argyfwng newid hinsawdd ac roedd yn datblygu cynlluniau i ddod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030. Roedd mwy o fasnacheiddio a chynhyrchu incwm hefyd yn un o'r blaenoriaethau allweddol a gynhwyswyd yn Strategaeth Trawsnewid y Cyngor ac mai bwriad y Strategaeth Fasnachol oedd atgyfnerthu ffyrdd newydd o weithio.

Amlinellodd yr adroddiad fod y Strategaeth Fasnacheiddio wedi'i datblygu i ddarparu ar gyfer dull mwy strategol o ddatblygu a gweithredu gweithgareddau cynhyrchu incwm ar draws y Cyngor. Cynhyrchu incwm/masnacheiddio oedd un o'r prif flaenoriaethau yn Strategaeth Trawsnewid y Cyngor a gallai chwarae rhan hanfodol wrth helpu i liniaru effaith yr heriau sylweddol yn y gyllideb yr oedd y Cyngor yn debygol o barhau i'w hwynebu yn y tymor byr i'r tymor canolig.

Gofynnodd yr adroddiad i'r Pwyllgor lunio sylwadau i'w cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Diolchodd yr aelodau i'r tîm am strategaeth gynhwysfawr ac roeddent yn ddiolchgar o dderbyn y wybodaeth a gynhwysir yn y cyflwyniad.

- Gofynnwyd a oedd y Strategaeth yn caniatáu i'r Cyngor fanteisio ar y sector preifat er budd masnachol? Eglurodd y Rheolwr Trawsnewid y byddai arferion masnacheiddio yn cael eu mabwysiadu lle bo'n briodol gan gadw at ddeddfwriaeth. Mae rhai gwasanaethau yn caniatáu i elw gael ei gynhyrchu, lle nad oedd cynhyrchu elw yn cael ei ganiatáu, drwy'r opsiwn o gyflwyno cwmni annibynnol, sy'n caniatáu mwy o gyfle i fabwysiadu dull mwy masnachol o ran cynhyrchu elw. Enghraifft lle mae'r Cyngor wedi

mabwysiadu arferion y sector preifat oedd cangen fasnachu Llesiant Delta a oedd wedi profi i fod yn llwyddiannus. Esboniodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ymhellach, er y gellid manteisio ar fenter breifat, y byddai angen ei chydbwyso gan y byddai'n gysylltiedig â risgiau a heriau. Yn ogystal, ni fyddai gan y Cyngor unrhyw bwerau ychwanegol uwchlaw'r ddeddfwriaeth.

Awgrymwyd y gallai'r Gwasanaethau Hamdden fanteisio ar weithgareddau a allai gynnwys Sioeau Carafanau a oedd yn gyffredin yn Lloegr gyda llwyddiant ysgubol. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod posibilrwydd y byddai'r tîm Hamdden yn ystyried hyn fel cyfle.

- Wrth gydnabod pwysigrwydd llywodraethu effeithiol, mynegwyd pryder na ddylai, fodd bynnag, rwystro penderfyniadau yn y dyfodol. Sicrhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol aelodau y byddai'r risgiau sy'n ymwneud â llywodraethu yn cael eu nodi gan y Bwrdd Masnacheiddio fel rhan o'r strwythur llywodraethu.

- Eglurodd y Rheolwr Trawsnewid, mewn ymateb i ymholiad a godwyd o ran diffiniad a diben y Strategaeth, fod y Strategaeth hon yn dod â phopeth at ei gilydd mewn modd mwy cydlynol, a'r cam nesaf yw datblygu cynllun cyflawni, gan gynnwys prosiectau dros y flwyddyn nesaf. Eglurwyd ymhellach fod proses yn ei lle a oedd yn annog trafodaethau i gasglu syniadau cychwynnol ar gyfer mentrau gan reolwyr, timau a staff gweithredol.

- Gwnaed sylw nad oedd unrhyw gyfeiriad at Ddeallusrwydd Artiffisial o fewn y Strategaeth. Sicrhaodd y Prif Swyddog Digidol Dros Dro yr Aelodau bod Deallusrwydd Artiffisial yn ganolog i'r Strategaeth Drawsnewid a'r Strategaeth Ddigidol a oedd yn cyd-fynd â'r Strategaeth Fasnacheiddio a gyflwynwyd heddiw ac yn ei chefnogi. Adroddwyd y byddai Strategaeth Deallusrwydd Artiffisial bwrpasol yn cael ei llunio yn ystod yr haf. Yn ogystal, eglurwyd bod y Cyngor wedi adeiladu a chynnal llawer o'i atebion technegol yn fewnol dros y blynyddoedd, ond mewn ymateb i'r diwydiant technolegol sy'n esblygu'n barhaus, mae'r Cyngor bellach wedi cynyddu ei reolaeth o atebion/cynhyrchion/gwasanaethau trwy gaffael neu brydlesau misol/blynyddol. Gan gydnabod nad oedd opsiwn ar gyfer cynhyrchu incwm yn y maes hwn, cydnabuwyd fodd bynnag fod manteision o ran cyflawni meddylfryd llai technegol a mwy masnachol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CABINET fod y Strategaeth Fasnacheiddio yn cael ei chymeradwyo.

6. CYNLLUN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL AR GYFER 2024/25

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Flaenraglen Waith ar gyfer 2024/2025 a baratowyd yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Craffu ddatblygu a chyhoeddi blaenraglen waith bob blwyddyn gan glustnodi materion ac adroddiadau sydd i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn ystod blwyddyn y cyngor.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu - Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2024/25.

7. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i restr o eitemau i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal ar 9fed Gorffennaf, 2024.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.

8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR YR 17EG EBRILL 2024

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17eg Ebrill, 2024 yn gofnod cywir.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf